Rhybudd am Droseddau Bwyd: FSA- NFCU -2024-A002

Dyddiad cyhoeddi'r rhybudd: 11/11/2024 **Dyddiad diweddaru'r rhybudd:** rhifyn cyntaf

Risg o Ddwyn oddi ar Fusnesau Bwyd Drwy Dwyll Dosbarthu

Amodau trin: Caniateir rhannu o fewn busnes, neu ag aelodau cysylltiedig o gorff masnach neu aelod-sefydliad yr anfonir y rhybudd hwn ato. Ni chaniateir iddo gael ei rannu ymhellach y tu hwnt i'r aelodau, gan gynnwys mewn deunydd ar gyfer y cyfryngau, heb ganiatâd gan foodcrime@food.gov.uk. Ni ddylid tynnu'r wybodaeth yn y rhybudd hwn allan o fformat yr adroddiad hwn wrth rannu.

Sgôr - OREN

TESTUN Y RHYBUDD

Bu cynnydd diweddar yn nifer yr adroddiadau am dwyll dosbarthu sy'n cael ei ddefnyddio fel dull o ddwyn cynhyrchion bwyd gwerth uchel oddi ar gwmnïau yn y DU.

Bydd y dull hwn o ddwyn yn cynnwys dynwared busnes presennol a defnyddio dogfennaeth wedi'i ffugio fel cyfeiriadau e-bost, anfonebau neu hyd yn oed wefannau ffug.

Yna, gosodir archebion mawr gan ddefnyddio telerau credyd lle nad oes angen talu tan ar ôl derbyn y nwyddau. Yna, caiff cynhyrchion eu casglu (o bosib gan gludwr cyfreithlon) a'u hailgyfeirio i leoliad nad yw'n gysylltiedig â'r busnes dilys sy'n cael ei ddynwared.

Yna, caiff cynhyrchion eu symud a byddant naill ai'n cael eu gwerthu ymlaen yn anghyfreithlon neu eu prosesu ymhellach i leihau'r gallu i olrhain y cynhyrchion.

Efallai mai dim ond pan fyddant yn ceisio taliadau y bydd cwmnïau'n dod yn ymwybodol o'r gweithgarwch hwn, a daw'n amlwg nad yw'r trafodiad yn gysylltiedig â'r cwmni disgwyliedig.

PAM RYDYM YN CYFLWYNO'R RHYBUDD HWN?

Mae'r rhybudd hwn yn seiliedig ar adroddiadau diweddar bod y fethodoleg hon yn cael ei defnyddio mewn achosion proffil uchel o ddwyn bwyd. Oherwydd hyn, rydym yn rhannu'r wybodaeth hon drwy grwpiau'r diwydiant yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon er mwyn annog busnesau i fod yn wyliadwrus rhag y risg bosib hon. Gofynnwn hefyd fod busnesau bwyd yn diweddaru unrhyw asesiadau risg a phrosesau i wella'u gallu i wrthsefyll y math hwn o dwyll.

CAMAU GWEITHREDU A ARGYMHELLIR

1. Sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i lywio asesiadau risg o ran twyll neu fannau gwan, gyda chamau gweithredu priodol ar waith.

MAE'R WYBODAETH HON YN GYWIR AR Y DYDDIAD CYHOEDDI. GALL NEWID WRTH I FWY O WYBODAETH DDOD I'R AMLWG.

2. Sicrhau bod cydweithwyr perthnasol sy'n gyfrifol am werthiannau a chontractau cwsmeriaid yn ymwybodol o unrhyw weithgarwch anarferol neu amheus, fel newidiadau i fanylion banc cwsmeriaid presennol neu gwsmeriaid newydd sy'n gofyn am archebion mawr iawn o eitemau gwerth uchel.

3. Os ydych yn ansicr a yw pryniant yn gyfreithlon, peidiwch ag ymateb yn uniongyrchol i gysylltiadau trwy e-bost neu negeseuon. Yn hytrach, defnyddiwch wybodaeth a restrir yn gyhoeddus ar gyfer y cwmni sy'n ceisio prynu gennych, a chysylltwch â nhw'n uniongyrchol i ddilysu'r manylion a roddir i chi.

CYSYLLTU Â NI
Os byddwch yn dod yn ymwybodol o wybodaeth sy'n berthnasol i'r Rhybudd hwn am Drosedd Bwyd,a fyddech cystal â'i rhannu â ni drwy un o'r dulliau canlynol:

GWEFAN – ewch i food.gov.uk/cy a chliciwch ar 'Rhoi gwybod' ar frig y dudalen

FFÔN – 08000 28 11 80

E-BOST – foodcrime@food.gov.uk

Dyfynnwch rif y rhybudd hwn, A002, **mewn gohebiaeth. Mae ein prosesau yn ein galluogi i drin gwybodaeth mewn ffordd gyfrinachol.**

MAE'R WYBODAETH HON YN GYWIR AR Y DYDDIAD CYHOEDDI. GALL NEWID WRTH I FWY O WYBODAETH DDOD I'R AMLWG.

DIFFINIADAU O'R STATWS 'GOLEUADAU TRAFFIG'

COCH	**Argymhellir yn gryf: camau gweithredu**
OREN	**Argymhellir: camau gweithredu**
GWYRDD	**Argymhellir: ymwybyddiaeth**

FFACTORAU A YSTYRIR GAN YR NFCU WRTH DDIFFINIO'R STATWS 'GOLEUADAU TRAFFIG'

Mae'r NFCU yn cytuno ar statws Goleuadau Traffig fesul achos. Defnyddir y cwestiynau isod i lywio penderfyniadau am y statws Goleuadau Traffig:

- Beth yw maint yr effaith (wedi'i chadarnhau neu'r potensial ar ei chyfer)?
- A oes ôl troed wedi'i gadarnhau yn y DU (mae hyn yn cynnwys cadwyni cyflenwi yn ogystal â busnesau yn y DU)?
- A oes potensial am effaith niweidiol sylweddol ar enw da diwydiant bwyd y DU a hyder ynddo?
- A oes unrhyw risgiau diogelwch bwyd cysylltiedig? Os felly, beth yw maint a natur y risgiau hyn? Sylwer: bydd timau eraill o fewn yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn arwain gweithgarwch gweithredol ar unrhyw ddigwyddiadau diogelwch bwyd.

Asesiad goddrychol yw hwn ac mae pwysau gwahanol wedi'u priodoli i'r ffactorau a ystyrir gan yr NFCU. Fel y cyfryw, gall un ffactor ddal mwy o bwysau neu fod yn yrrwr allweddol ar gyfer y statws goleuadau traffig a ddewisir ar gyfer rhybudd.

GWYBODAETH I'R RHAI SY'N DERBYN Y RHYBUDD HWN

- Sicrhewch eich bod yn cadw at yr amodau trin a nodir yn y rhybudd.
- Diben y rhybudd hwn yw sicrhau bod y diwydiant yn ymwybodol o risgiau troseddau bwyd posib ac yn gallu cymryd camau priodol.
- Ni fwriedir i'r rhybudd hwn gael ei rannu'n ehangach yn gyhoeddus, a gallai unrhyw wybodaeth a gaiff ei lledaenu heb awdurdod beryglu ymchwiliadau parhaus ac enw da diwydiant bwyd y DU.
- Mae'r rhybudd hwn hefyd wedi'i rannu ag awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

MAE'R WYBODAETH HON YN GYWIR AR Y DYDDIAD CYHOEDDI. GALL NEWID WRTH I FWY O WYBODAETH DDOD I'R AMLWG.